

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU
Nodiadau cyfarfod – 22 Tachwedd 2017, Merthyr Tudful

Yn bresennol

Cadeirydd

Andrew Jacobs (AJ) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Charlotte Anscombe (CA) Yr Uned Cynhwysiant Ariannol
Paul Neave (PN) Yr Uned Cynhwysiant Ariannol

Aelodau / Yn dirprwyo dros aelodau

Jonathan Brenchley (JB)	Cysylltiadau Corfforaethol Cymru a Gorllewin Lloegr, Banc Barclays
Danielle Cope (DC)	Gweithredu dros Blant
Elizabeth Emmons (EE)	Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru
Helene Hayes (HH)	Cyngor ar Bopeth Cymru
Lee Phillips (LP)	Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Graham Roberts (GR)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Rhaglen Credyd Cynhwysol)
Selina Mayo (SM)	Cartrefi Cymunedol Cymru
Iwan Williams (IW)	Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn

Ysgrifenyddiaeth

Lisa Wait (LW) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol

Will Atkinson (WA)	Cartrefi Cymunedol Cymru
Leanne Herberg	Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Farida Aslam	Cymdeithas Tai Sir Fynwy
Sean O'Neill	Plant yng Nghymru
Jocelle Lovell	Canolfan Cydweithredol Cymru

1. *Croeso, cofnodion a materion yn codi o'r cofnodion*

- 1.1 Croesawodd AJ yr aelodau i bumed cyfarfod y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol gan ddiolch iddynt am fod yn bresennol. Estynnodd AJ groeso arbennig i Selina Mayo o Cartrefi Cymunedol Cymru a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf, ac i Lisa Wait a oedd wedi cymryd lle Jan Morgan yn yr Uned Cynhwysiant Ariannol yn Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ac sydd wedi ymgymryd â rôl ysgrifenyddiaeth y grŵp. Nodwyd hefyd bod Rhys Evans wedi anfon gair i ymddiswyddo o'i rôl fel aelod annibynnol o'r grŵp, oherwydd ymrwmiadau gwaith.

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 22 Tachwedd 2017, Merthyr Tudful

- 1.2 Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.
Nodwyd bod y pwynt gweithredu yn 3.1 ar gyfer LP wedi'i gwblhau.
2. ***Ystadegau'r Gwasanaeth Cyngtori Ariannol ynghylch Gallu Ariannol***
 - 2.1 Rhoddodd LP drosolwg o'r arolwg a gomisiynwyd yn ddiweddar gan y Gwasanaeth Cyngtori Ariannol ynghylch Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru, a lansiwyd yn ystod yr Wythnos Gallu Ariannol. Mae'r canlyniadau'n cynnwys rhai ffigurau cadarnhaol, ond mae ffordd bell i fynd o hyd.
 - 2.2 Tynnodd LP sylw at rai o brif ganfyddiadau'r arolwg gan nodi bod rhai dangosyddion yn dangos bod Cymru ar y blaen i weddill y DU, er enghraifft y dangosyddion ynghylch cyfrifon banc ac ynghylch plant yn gweld eu rhieni'n defnyddio arian parod. Un agwedd lle mae Cymru ar ei hôl hi yw'r agwedd sy'n ymwneud â'r awydd i fod yn annibynnol a gadael cartref; 21% yw'r ganran ar gyfer Cymru o'i chymharu â 30% ar gyfer y DU.
 - 2.3 Addysg ariannol – Dywed 35% o blant 7-17 oed eu bod wedi dysgu sgiliau rheoli arian yn yr ysgol. Nododd LP fod y ffigur hwn yn uwch yng ngweddill y DU ac mai un rheswm posibl dros hynny yw oherwydd nad yw plant a phobl ifanc yn ei nodi. Yr hyn sy'n gadarnhaol yw bod dros 9 o bob 10 person ifanc a ddywedodd iddynt ddysgu sgiliau rheoli arian yn yr ysgol wedi nodi bod hynny'n ddefnyddiol.
 - 2.4 Aeth LP ymlaen i gyflwyno rhai o ystadegau eraill yr arolwg, a oedd yn cynnwys y canlynol:
Mae 43% yn cynilo gan amlaf.
Mae 3 o bob 4 yn siarad â'u rhieni am arian.
Dywed 7 o bob 10 eu bod yn fodel rôl da, ond nododd LP nad yw'r ymddygiad a welir bob amser yn cyd-fynd â hynny.
 - 2.5 Cyngorodd LP aelodau'r grŵp i ddarllen yr adroddiad llawn. Nodwyd hefyd nad yw aelwydydd ag incwm isel yn gwneud gystal ag aelwydydd ag incwm uwch. Mae plant o aelwydydd ag incwm uwch yn fwy tebygol o lawer o fod â swydd ran-amser yn ystod eu harddegau.
 - 2.6 Mae'r arolwg yn nodi bod Addysg Ariannol Deuluol yn hollbwysig o safbwynt gwneud gwahaniaeth, a bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ymdrin ag arian yn gwneud yn well.
 - 2.7 Nododd AJ fod y canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu patrwm diweithdra a bod angen i gynlluniau llesiant adlewyrchu sut y byddwn yn ymgysylltu â Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae tri neu bedwar o gynlluniau'n cyfeirio at gyngor, ond ni cheir unrhyw gyfeiriad at allu ariannol. Nodwyd hefyd nad oes unrhyw gyfeiriad at allu ariannol yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
 - 2.8 Nododd PN ei fod wedi cael gwahoddiad i fynd i gyfarfod cydgysylltwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2018 i drafod sut y

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 22 Tachwedd 2017, Merthyr Tudful

gall cyngor ynghylch mynediad i fesurau lles cymdeithasol gael ei ymgorffori mewn cynlluniau gweithredu'n ymwneud â llesiant. Soniodd PN y byddai croeso i LP ddod i'r cyfarfod hefyd.

- 2.9 Cytunwyd bod angen codi proffil Addysg/Cynhwysiant Ariannol, fel eu bod yn cael eu cynnwys yn gyson mewn cynlluniau llesiant. Awgrymwyd y byddai cyfarfod â Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yn gyfle ardderchog i hynny ddigwydd. Dywedodd AJ y byddai'r swyddogion yn ystyried cysylltu â swyddfa Sophie Howe i ofyn am gyfarfod. Mynegodd HH ddiddordeb mewn cymryd rhan fel grŵp. Yn ogystal, ychwanegodd AJ fod cyfarfodydd yn digwydd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, drwy waith y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol, ac y gellid adeiladu ar hynny.

**Pwynt gweithredu – Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyfarfod.
Pwynt gweithredu – Bydd Llywodraeth Cymru yn anfon gwybodaeth drwy'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol.**

- 2.10 Cadarnhaodd AJ fod y Gweinidog wedi cael gwybodaeth am ganfyddiadau'r arolwg cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Roedd y wybodaeth hefyd yn cynnwys trosolwg o'r hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r meysydd gwannach a nodwyd yn yr arolwg.

3. *Adborth ynghylch yr Wythnos Gallu Ariannol a chofnodi gweithgareddau sy'n parhau*

- 3.1 Agorodd AJ y drafodaeth â sylwadau ynghylch y digwyddiad a gynhaliwyd yn Stadiwm Principality ar 14 Tachwedd a'r digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd ar 16 Tachwedd lle'r oedd y Gweinidog Rebecca Evans yn bresennol a lle cafwyd araith ganddi. Roedd y ddau ddigwyddiad yn llwyddiannus.

3.2 Y Digwyddiad ynghylch Plant a Phobl Ifanc – Stadiwm Principality – 14 Tachwedd

Trafodwyd y digwyddiad. Rhoddodd DC adborth i'r grŵp gan ddweud ei bod wedi cael sylwadau cadarnhaol iawn yn dilyn y gweithdy a arweiniwyd ganddi a bod llawer o bobl wedi dod ati i ofyn am gopïau o'r araith.

- 3.3 Nodwyd bod 75 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad a gynhaliwyd yn Stadiwm Principality, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff sy'n gweithio ym maes rhianta a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, undebau credyd, cymdeithasau tai ac elusennau plant. Cytunwyd bod y digwyddiad yn un llwyddiannus a'i bod yn braf gweld yr holl waith sy'n cael ei wneud yn y maes a'r ystod o adnoddau sydd ar gael.

- 3.4 **Digwyddiad Dathlu Gwaith ym maes Gallu Ariannol yng Nghymru – Y Senedd**
Nodwyd bod 65 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad a'u bod yn dod o ystod o wahanol sefydliadau a mudiadau. Roedd gan lawer ohonynt arddangosfa a buont yn siarad am yr hyn y maent yn ei wneud i hybu gallu ariannol.

- 3.5 Cytunodd aelodau'r grŵp a oedd yn bresennol yn y digwyddiad fod y slot 5 munud i bob siaradwr wedi gweithio'n dda iawn. Dywedodd HH fod pob

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 22 Tachwedd 2017, Merthyr Tudful

cyflwyniad yn ddigon gwahanol i'w gilydd i alluogi'r digwyddiad i lifo'n dda. Dywedodd LP fod y digwyddiad yn un cadarnhaol iawn a'i fod yn teimlo fel dathliad, fel y bwriadwyd. Roedd hefyd yn braf bod y Gweinidog wedi rhoi araith yn y digwyddiad.

- 3.6 Bu'r grŵp yn trafod dulliau o adeiladu ar lwyddiant yr Wythnos Gallu Ariannol y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau ei bod yn fwy llwyddiannus fyth. Nododd DC mai'r defnyddiwr yn y pen draw sydd bwysicaf a bod angen cyrraedd y fan honno. Yn ogystal, dywedodd DC fod angen i ni ystyried bod yn fwy creadigol a chael sectorau gwahanol i gymryd rhan a chydweithio. Dywedodd fod eleni'n ddechrau da iawn ond bod angen i ni adeiladu ar hynny ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Awgrymodd EE y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i ni gael dyddiad ar gyfer Wythnos Gallu Ariannol y flwyddyn nesaf er mwyn i ni allu ei nodi'n gynnar yn ein dyddiaduron.

Pwynt gweithredu – Bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu nodyn ar gyfer dyddiadur i aelodau'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol

- 3.7 Maes Dysgu a Phrofiad – O safbwynt Addysg Ariannol, nodwyd ei bod yn ymddangos bod Abertawe yn gwneud ymdrech fawr i hybu'r agenda hon. Ychwanegodd AJ fod Undeb Credyd Celtic, sydd hefyd yn gweithredu yn ardal Abertawe, yn ymwneud â grŵp sy'n datblygu'r cwricwlwm newydd a bod papur argymhellion wedi'i gyflwyno.

4. *Y Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau, gan gynnwys yr alwad am dystiolaeth ynghylch cynllun seibiant i'r sawl sydd mewn dyled ('Breathing Space')*

- 4.1 Rhoddodd AJ ddiweddariad ynghylch y Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau. Mae'n nesáu at ddiwedd ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ac mae'n mynd trwy broses y trydydd darlleniad. Mae'r Bil wedi ennyn llawer o ddadlau wrth iddo fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r Bil wedi'i ddiwygio droeon, a chafwyd un diwygiad allweddol a oedd yn ymwneud â'r cysyniad o gynllun seibiant i'r sawl sydd mewn dyled. Yn gryno, bydd y diwygiad dan sylw'n mynnu bod Llywodraeth y DU yn gofyn i'r Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl ddarparu cyngor ynghylch sut y gallai cynllun seibiant o'r fath weithredu. Ni fydd y diwygiad yn gorfodi Cymru i fod yn rhan o'r cynllun seibiant a gynigir gan y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl; mae'n rhoi'r gallu i ni optio i mewn os ydym yn teimlo bod y cynllun yn addas i anghenion pobl Cymru.
- 4.2 Esboniodd PN fod Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth yn ddiweddar ynghylch materion sy'n ymwneud â chynllun seibiant, ac mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 18 Ionawr 2018. Roedd AJ yn teimlo nad lle'r Grŵp Llywio oedd ymateb ar y cyd fel corff, ond ei bod yn bwysig i bawb fynegi eu barn eu hunain.
- 4.3 Nododd AJ fod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ynghylch y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo lefel y cyllid sydd i'w

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 22 Tachwedd 2017, Merthyr Tudful

ddatganoli ledled Cymru ar gyfer gwasanaethau cynghori ynghylch dyled, ac y bydd y fformiwla yn adlewyrchu'r ffigurau cymharol uwch ynghylch dyled ar gyfer Cymru. Esboniodd hefyd y bydd grŵp pontio (a fydd yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau) yn cael ei sefydlu i ystyried unrhyw faterion priodol ac i sicrhau bod y cyfrifoldeb am wasanaethau cynghori ynghylch dyled yn cael ei drosglwyddo'n esmwyth pan fydd y Corff Cyfarwyddyd Ariannol Sengl yn dechrau gweithredu.

- 4.4 Bydd y ddadl sesiwn lawn ynghylch y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei chynnal ddechrau mis Rhagfyr. DIWEDDARIAD – Cafodd y ddadl ei gohirio wedyn tan 13 Chwefror.

5 Credyd Cynhwysol – Yr heriau a'r ymatebion

- 5.1 Rhoddodd PN drosolwg o rai o'r newidiadau i Gredyd Cynhwysol a gyhoeddir yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU. Roedd y newidiadau'n cynnwys cyfnod hwy i ad-dalu Taliad Ymlaen Llaw a'r ffaith y bydd y sawl sy'n hawlio yn gallu cael 100% o'r swm Credyd Cynhwysol a ddyfarnwyd iddo yn fisol. Bwriedir dileu'r cyfnod aros o 7 diwrnod a bydd y sawl sy'n hawlio Budd-dal Tai yn cael Budd-dal Tai sy'n parhau am bythefnos arall pan fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol. Croesawodd PN y newidiadau hyn ond dywedodd y gellid bod wedi cyflwyno mwy o newidiadau cadarnhaol, yn enwedig o safbwynt lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol er mwyn sicrhau ei bod yn talu'r ffordd i bobl weithio.
- 5.2 Nododd GR fod cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gael i awdurdodau lleol a bod rhywfaint ohono yn canolbwyntio ar gymorth cyllidebu personol er mwyn helpu aelwydydd i symud yn llwyddiannus i daliadau misol, agor cyfrifon banc trafodaethol a sefydlu trefniadau talu amgen, sy'n cynnwys talu costau tai'n uniongyrchol i landlord. Nododd GR y gall pobl gael eu cyfeirio o unrhyw le at awdurdodau lleol i gael cymorth cyllidebu, ond bod y mwyafrif helaeth yn cael eu cyfeirio drwy'r ganolfan waith.
- 5.3 Nododd PN y bydd gweithredu Credyd Cynhwysol yn cynnig cyfle i feithrin mwy o allu ariannol ar aelwydydd. Yn ogystal, mae Credyd Cynhwysol yn creu cyfle i weithio'n well ar draws sectorau, er enghraifft rhwng awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr yn y trydydd sector, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau i aelwydydd mor effeithiol ag y gallant fod. Nid oedd PN yn siŵr pa mor dda y mae hynny'n cael ei wneud ar draws Cymru ar hyn o bryd.
- 5.4 Nododd SM fod llawer o gymdeithasau tai yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol.

6 Diweddariad ynghylch y Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol

- 6.1 Cafwyd trafodaeth ymhlith aelodau'r grŵp ynghylch sut y byddai diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu rheoli, oherwydd erbyn hyn mae'r

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 22 Tachwedd 2017, Merthyr Tudful

cynllun cyflenwi'n ddogfen fawr sy'n cynnwys llawer o wybodaeth y mae rhywfaint ohoni wedi dyddio.

- 6.2 Rhoddodd PN ddiweddariad ynghylch yr agweddau ar y cynllun sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori.

Roedd y cyn-Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn cytuno y dylai'r swyddogion weithio tuag at uno'r tair cronfa sy'n ymwneud â chynghori er mwyn creu un gronfa sy'n hybu cydweithredu effeithiol rhwng darparwyr ac sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o'r holl adnoddau sydd ar gael. Er mwyn cynnal sefydlogrwydd yn y sector cynghori, tra bod y gronfa sengl newydd yn cael ei datblygu, cytunwyd hefyd i barhau i ariannu'r pum darparwr presennol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Medi 2019. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r darparwyr weithio gyda swyddogion yn barhaus er mwyn helpu i ddatblygu eu gwasanaethau presennol.

- 6.3 Mae ymarfer tendro cystadleuol ar y gweill (y dyddiad cau oedd 22 Tachwedd) er mwyn penodi contractwr i sefydlu gwasanaeth asesu annibynnol y Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ac er mwyn dechrau ar y broses o sicrhau bod Perchnogion y Safon Ansawdd Cyngor/Gwybodaeth am Les Cymdeithasol yn cael eu hachredu'n unol â'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor.

- 6.4 Erbyn hyn, mae gan wefan DEWIS Cymru gategori 'Cyngor gwybodaeth lles cymdeithasol'. Bydd hynny'n ei gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd chwilio am wasanaethau lleol a all roi gwybodaeth a chyngor i'w helpu i ddatrys eu problemau. Mae pob un o'r darparwyr sydd ar restr y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol o randdeiliaid wedi cael cais i gofrestru ar y wefan. Mae'n cynnwys system ddiogelu, ac mae gan Lywodraeth Cymru statws golygydd.

- 6.5 Cadarnhaodd CA fod cyllid ar gyfer undebau credyd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ond nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl am adroddiadau monitro chwarter tri gan yr undebau credyd sydd wedi cael cyllid eleni i ddatblygu prosiectau sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol, er mwyn ystyried y canlyniadau ac ystyried a oes unrhyw werth mewn gweithredu unrhyw un o'r prosiectau ymhellach.

- 6.6 Rhoddodd AJ y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ganlyniad y prosiect peilot sy'n ymwneud â chynlluniau cyflogresi undebau credyd, a gynhaliwyd y llynedd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, gan fod lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cytuno i chwilio am ddarparwr cyflogresi ac y bydd yn caffael gwasanaeth o'r fath.

- 6.7 Dywedodd EE fod mwy o arian ar gael y flwyddyn nesaf o enillion troseddau. Y llynedd cafodd enillion troseddau a oedd yn werth £48,000 eu buddsoddi mewn prosiectau ar gyfer 10 sefydliad.

GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU
Nodiadau cyfarfod – 22 Tachwedd 2017, Merthyr Tudful

7 *Unrhyw fater arall*

- 7.1 Ymholodd HH ynghylch diweddaru'r cynllun cyflenwi, a gofynnodd a fyddai modd i ni ystyried dull mwy hwylus o ddiweddaru'r cynllun.
- 7.2 Dywedodd AJ mai diben y cynllun yw darparu diweddariadau byr ac y byddai gwybodaeth fwy manwl yn cael ei chofnodi yn rhywle arall.
- 7.3 Awgrymodd LP y gallai'r cynllun gynnwys dolenni cyswllt â dogfennau eraill, yn hytrach na diweddariadau maith.
- 7.4 Soniodd JB am dwyll ar-lein a nododd y rhagwelir y bydd Dydd Gwener Du eleni'n gweld twyll ar-lein yn cyrraedd ei lefel uchaf erioed. Cytunwyd y byddai LW yn dosbarthu dogfen i aelodau'r grŵp sy'n cynnwys gwybodaeth am y broblem hon.

Pwynt gweithredu – Bydd LW yn dosbarthu datganiad i'r wasg gan JB i'r grŵp ehangach.

- 7.5 Esboniodd LP ymarfer a gynhelir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol er mwyn helpu i gydgysylltu addysg ariannol yn well yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae'r Gwasanaeth wrthi ar hyn o bryd yn mapio'r ddarpariaeth bresennol o ran gallu ariannol ar gyfer plant a phobl ifanc. Cytunwyd y byddai LW yn anfon y ddolen gyswllt ganlynol i aelodau a rhwydweithiau'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol (cliciwch [yma](#)).
- 7.6 Yn ogystal, dywedodd CA y byddai'n dosbarthu'r ddolen gyswllt â'r ymgynghoriad ynghylch safonau bancio yn dilyn y cyfarfod.
- 7.7 Diolchodd AJ i aelodau'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol am eu presenoldeb, eu cyfraniadau a'u sylwadau adeiladol. Mae'n debygol y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2018.

Lisa Wait

Tachwedd 2017